# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Powys

## Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2022

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi gwaith archwilio wedi'i gwblhau ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022** | Chwefror 2022 | Cyhoeddwyd Chwefror 2022 |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad datganiad cyfrifon 2021-22 y Cyngor** | I gadarnhau pa un a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi barn wir a theg. | Amserlen wedi'i hymestyn hyd at 31 Ionawr 2023 | Disgwylir i'r Farn Archwilio gael ei darparu 25 Ionawr 2023 |
| **Archwiliad o ddatganiad cyfrifon Cronfa Bensiwn Powys 2021-22** | I gadarnhau pa un a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi barn wir a theg. | Dyddiad cau statudol 1 Rhagfyr 2022 | Wedi'i gwblhau – Darparwyd Barn Archwilio 29 Tachwedd 2022 |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Grantiau a Ffurflenni'r Cyngor 2021-22** | Archwiliadau o hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grant. | Dyddiadau cau amrywiol wedi’u gosod gan y cyrff sy'n rhoi grant | Gwaith archwilio i barhau i Chwarter 1 2023. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD)** | Byddwn yn ceisio integreiddio’r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LlCD o gamau i gyflawni amcanion llesiant â’n gwaith archwilio eraill. Byddwn yn trafod hyn gyda'r Cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Mynd rhagddo | Mynd rhagddo |
| **Archwiliad adrodd ar welliannau** | Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Wedi’i gwblhau | Tystysgrif wedi’i chyhoeddi Medi 2021 |
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y | Mynd rhagddo | Adroddiad drafft wedi’i gyflwyno i'r Cyngor |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Abertawe mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Trefniadau hunanasesu<br>• Cynllunio adferiad<br>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• Cynlluniau lleihau carbon | | |
| **Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. | Hydref 2022 | Adroddiad y Gweithlu wedi'i gyhoeddi Tachwedd 2022. |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau Diogelu Corfforaethol** | Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu. Bwriad yr adolygiad hwn yw ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a geir yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015. | Rhagfyr 2022 | Cyhoeddwyd yr Adroddiad Rhagfyr 2022. |
| **Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio** | Trwy'r adolygiad byddwn yn ceisio cael cipolwg ar Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor. Byddwn yn ystyried economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Cynllunio ac i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu'r Gwasanaeth. | Yn gynnar yn 2023 | Drafftio |

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Rheoli rhaglenni cyfalaf<br>• Defnyddio gwybodaeth berfformio - gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau<br>• Gosod amcanion llesiant | Mynd rhagddo | Mynd rhagddo |
| **Adolygiad Thematig – Gofal heb ei drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n | Awst 2022 – Chwefror 2023 | Gwaith maes |

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal mynediad i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. | | |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Mae'r prosiect hwn yn cael ei gwmpasu gyda manylion pellach am bwyslais penodol yr adolygiad i'w gadarnhau. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |
| **Adolygiad Cynnydd Gwaith Craffu Dilynol** | Bydd y prosiect hwn yn archwilio pa un a yw'r argymhellion o'n Gwaith Craffu Dilynol blaenorol wedi'u gweithredu. | Gwanwyn 2023 | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes a gynlluniwyd yng Nghyngor Sir Powys |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth** | Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Clirio – gyda chyhoeddiad Ionawr 2023 | Ie – cyfweliad gyda'r swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Diogelwch adeiladau** | Adolygiad o ba mor dda mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelwch adeiladau | Medi 2022 – Awst 2023 | Casglu Tystiolaeth – gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer Ionawr – Mawrth 2023 | Ie – cyfweliad gyda'r swyddog a enwebwyd yn y Cyngor ac arolwg. |
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd** | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo a galluogi defnyddio anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd yn well | Hydref 2022 – Medi 2023 | Casglu Tystiolaeth – gwaith maes yn cael ei drefnu ar gyfer Ionawr – Mawrth 2023 | Ie – cyfweliad gyda'r swyddog a enwebwyd yn y Cyngor ac arolwg. |
| **Llywodraethiant awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygiad o systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Cynllunio | Na |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes a gynlluniwyd yng Nghyngor Sir Powys |
|---|---|---|---|---|
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Ionawr 2023 | Gwaith maes wedi'i gwblhau | Ydym – Rydym yn archwilio safbwynt y Cyngor trwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol.<br>Mae gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Cynhaliodd Estyn gynhadledd welliant ôl-arolygiad yn Nhorfaen ym mis Medi fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n destun pryder sylweddol. Cafodd Sir Benfro ei symud o'n categori dilynol yn dilyn ein hymweliad monitro ddechrau mis Hydref. Mae awdurdod lleol Wrecsam yn dal i fod mewn categori achosi pryder, ac aethom ati i gynnull cynhadledd cynnydd ym mis Rhagfyr i edrych yn benodol ar argymhelliad gwella ysgolion. Rydym yn bwriadu ail-ymweld â Wrecsam yn nhymor yr haf. Fe wnaethom ni archwilio Blaenau Gwent ym mis Rhagfyr ac mi fyddwn yn arolygu RhCT yn gynnar yn y gwanwyn. | Wythnos arolygu Rhondda Cynon Taf yn cychwyn 23 Ionawr | Amherthnasol |
| **Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) adolygiad thematig** | Gwaith maes yn cael ei wneud ddiwedd tymor yr hydref/dechrau tymor y gwanwyn ar draws pob awdurdod lleol. | Cyhoeddir Adroddiad ar 30 Mehefin | Amherthnasol |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Yn dilyn ein cyfnod profi, rydym yn gwneud y gwelliannau terfynol i'n dull gweithredu a'n cod ymarfer. Bydd hyn yn arwain at god ymarfer diwygiedig. Byddwn yn ymgynghori ar hwn yn gynnar yn 2023 gyda gweithredu o 01 Ebrill 2023. | Ebrill 2022-Mawrth 2023 | Ar y gweill |
| Gweithio ar y cyd | Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio ag AGIC ar gyfer adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc ac arolygiadau Timau Iechyd Meddwl Cymunedol. | Cyfredol | Ar y gweill |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22** | Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21 mae gwaith cynllunio adroddiad ar y gweill ar gyfer yr adroddiad nesaf: dyddiad cyhoeddi i'w gadarnhau. | Dyddiad cyhoeddi i'w gadarnhau | Cyn cyhoeddi |
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 | Cyflawni |

| Gwaith arfaethedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br><br>Rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (cyn-achos).<br><br>I ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi'r 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' a chyhoeddi adroddiad gweithgor amlinelliad cyfraith gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllawiau arferion gorau. | Medi 2022 – Gwanwyn 2023 | Cyflawni |
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn ni'n cwblhau pedwar arolygiad aml-asiantaeth arall ar y cyd.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar ddiwedd 2023. | Hydref 2022 – Gwanwyn 2023 | Cynllunio |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers mis Ionawr 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |
| Offeryn Data Tlodi | Tachwedd 2022 |
| 'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru | Tachwedd 2022 |
| Dysgu o ymosodiadau seiber | Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwiliedig) |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | Hydref 2022 |
| Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Hydref 2022 |
| Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth | Medi 2022 |
| Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Pennu amcanion llesiant – Llywodraeth Cymru | Medi 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at fis Mawrth 2022 | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Gorffennaf 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Gorffennaf 2022 |
| Dilyniant System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru – ac offeryn data amseroedd aros | Mai 2022 |
| Y Cwricwlwm newydd i Gymru | Mai 2022 |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwadau | Ebrill 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i’r adroddiad |
|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Ebrill 2022 |
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Chwefror 2022 |
| Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data) | Ionawr 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith sy’n mynd rhagddo/a gynllunir)[1]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone – llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Ionawr 2023 |
| Llywodraethu ansawdd yn y GIG | Chwefror 2023 |
| Gwasanaethau orthopedig | Chwefror 2023 |
| Cynhwysiant digidol | Chwefror 2023 |
| Briff ar ddata cynllunio gweithlu'r GIG | Mawrth 2023 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwilio i gyfathrebu â ni. Ers y diweddariad diwethaf rydym wedi bwrw ymlaen â’r gwaith cynllunio ar gyfer nifer o bynciau newydd er bod cwmpas ac amserlen rhywfaint o’r gwaith hwn eto i'w cadarnhau.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Manteisio i’r eithaf ar gyllid yr UE | Mai 2023 |
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon – dilyniant | Gorffennaf 2023 |
| Tai fforddiadwy | I’w gadarnhau |
| Ymateb i ffoaduriaid o Wcráin | I'w gadarnhau |
| Teithio llesol | I'w gadarnhau |
| Gwasanaethau canser | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau ac adnoddau y Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| Mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru: ymateb i'r her – daeth y digwyddiad dysgu a rennir hwn â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth am sut y gall sefydliadau ymateb i'r heriau a achosir gan dlodi. Fe wnaethom rannu enghreifftiau o ddulliau gweithredu a fabwysiedir gan sefydliadau yng Nghymru ac ar draws y DU. | Adnoddau mynd i'r afael â thlodi |

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy nag ymarfer blwch ticio: Nod y digwyddiad dysgu a rennir hwn yw cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wella defnydd a chymhwyso Asesiadau EG y tu hwnt i ymarfer cydymffurfio drwy ddod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. | Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb mwy nag ymarfer blwch ticio: Cofrestru ar gyfer digwyddiad ar-lein |
| 'Cyfle wedi’i golli': Mentrau Cymdeithasol: Yn dilyn ein digwyddiad ‘Mynd i’r Afael â Thlodi yng Nghymru: ymateb i’r her’ a gynhaliwyd ym mis Hydref, byddwn yn cynnal digwyddiad dysgu a rennir arall ar ein gwaith thema sy'n edrych ar fentrau cymdeithasol yn y flwyddyn newydd. Bydd y digwyddiad hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth er mwyn lleihau'r heriau a achosir gan dlodi. | Bydd rhagor o fanylion ar gael ar ein tudalen ddigwyddiadau yn fuan. |

## Blogiau diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig | 21 Tachwedd 2022 |
| Mae mynd i’r afael â thlodi yn golygu mynd i'r afael â’r data ar dlodi | 11 Tachwedd 2022 |
| Costau byw a rhoi'r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â newid hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |
| Gofal heb ei drefnu yng Nghymru - system dan bwysau cynyddol | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rhifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galw am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (Adeiladu cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |